

Cwmni

Papur Sir Caerffili: Cwm Aber, Ebwy, Rhymni a Sirhywi

Rhifyn 198

Pris 80c

Mis Rhagfyr 2017



Nadolig Llawen

PWYLLGOR A SWYDDOGION

Cadeirydd: Robert Dutt

Ymgynghorydd: Ann Lewis

Trysorydd: Eyron Thomas e.thomas119@btinternet.com



*Ariennir yn
rhannol gan
Lywodraeth
Cymru*

Golygydd: Ben Jones benamary2000@yahoo.co.uk 02920 862428 07891916046

Ysgrifennydd: Marian Fairclough faircloughme@aol.com 02920 885151

Ysgrifennydd Cofnodion: Ann Lewis

Golygydd Lluniau: Mary Jones

Cynorthwy-ydd: Jan Penney **Digwyddiadur:** huwrowlands@mentercaerffili.cymru

Ieuenctid: Morgan Roberts, Swyddog Prosiect Llais, a Bethan Jones Menter Caerffili

Y Pwyllgor: Eirlys Thomas, Gareth W. Williams, Dilys Williams, Dafydd Islwyn

e-bost: Golygydd@papurewmni.cymru **Gweplyfr/ Facebook:** Papur Bro Cwmni

Gwefan: mentercaerffili.cymru/ **Cwmni** 

Croesawir erthyglau gan unrhyw un ond iddynt gyrraedd desg y Golygydd cyn 20fed diwrnod y mis cyn cyhoeddi.

Cedwir yr hawl i gwtogi neu newid erthyglau neu luniau yn unol â gofynion golygyddol.

Argraffir gan Tower Print, Uned 12a, Ystâd Ddiwydiannol Tŷ Bedwas, Caerffili, CF83

Oedfaon Mis Rhagfyr 2017 a Ionawr 2018

Capeli Caerffili

Bedyddwyr Tonyfelin

Am fwy o wybodaeth: 02920869094

Annibynwyr, Bethel

Cysylltwch â: 02920843176

Rhagfyr 2017

3ydd Bore a hwyr: Parch Dafydd Henri Edwards

10.30: Y Parch Eirian Rees

10fed Bore a hwyr: Parch Milton Jenkins

10.30 a 6.00: Dafydd Henri Edwards

17eg 10.30: Parch Milton Jenkins

10.30: Nadolig y Beirdd

6.00: Carol a Channwyll

6.00: Carol a Channwyll -Tonyfelin

24ain 10.30: Parch Milton Jenkins DIM OEDFA NOS

10.30: Ysgol Sul

31ain 10.30: Oedfa deulu DIM OEDFA NOS

10.30: Ymunno â Thonyfelin

Bydd oedfa am 9.30 fore Nadolig – yn y ddau gapel

Croeso mawr i bawb!

Ionawr 2018

7fed Bore a hwyr : Parch Milton Jenkins

10.30: Y Parch Gwilym Dafydd

14eg 10.30 : Parch Lona Roberts

10.30: Alun Johnson

6.00: Gwybodaeth i ddilyn

21ain Yn Bethel

10.30 Y Parch R.Owen Griffiths (Cymundeb yn y bore)

28ain Bore a hwyr : Marc Jon Williams

10.30 Ymunno â Thonyfeliin

Capel y Groeswen

3ydd o Ragfyr 3:00 o'r gloch Gwasanaeth Adfent : Dr Alun Hughes

Rhagfyr 2:30 o'r gloch GWASANAETH CAROLAU am gyda Mrs Sioned Isaacs

Cyswllt: Mrs June Evans 02920884018 Mrs Mair Cartlidge 02920620119

Carol o'r Gorffennol

gan Dr Elin Jones

Dyma'r Nadolig ar y trothwy, ac mae caneuon y tymor i'w clywed ym mhobman; rhai yn fodern ac yn dathlu tymor o fwyta ac yfed, partiön, anrhegion, Siôn Corn a'i geirw hud, ond eraill yn cyfeirio'n meddyliau ni at hanes ffoaduriaid tlawd - a'r Geni ym Methlehem.

Nid peth diweddar yw dathlu troad y flwyddyn trwy wleda ac yfed, dawnsio a chanu. Mae'r credoau a defodau Cristnogol yn fwy diweddar o lawer! Serch hynny, datblygodd yr awydd i ddathlu trwy wario'n wyllt ar ddanteithion ac anrhegion yn ystod yr ugeinfed ganrif. Onid hosan o anrhegion oedd yn disgwyl tad-cu a mam-gu ar foreuau'r Nadolig eu plentyndod; cas clustog i'w plant, a sach i blant os heddiw?


Ar ben bryniau'n CwmNi saif eglwysi hynafol iawn – St Ilan yn Eglwysilan, St Cadog yng Ngelligaer, St Barrwg ym Medwas, St Tudur ym Mynyddislwyn ... Gwelodd yr adeiladau hynafol hyn ddathlu cannoedd o Nadoligau a chlywodd eu muriau garolau Lladin, Cymraeg a Saesneg. Maent hefyd yn sefyll ar fannau oedd efallai yn gysygreddig i'r bobol baganaidd a'n rhagflaenodd. Tybed a fu 'dawnsio, canu a difyrru' i ddathlu troad y flwyddyn yn yr un mannau ers miloedd o flynyddoedd?

Os ewch i ymweld ag Eglwys Teilo Sant yn yr Amgueddfa Werin, cewch weld sut y byddai'n heglwysi ni wedi edrych tua 1530, cyn i newidiadau gwleidyddol a diwygiadau crefyddol eu gweddnewid. Ac os prynwch lyfr sydd newydd ei gyhoeddi (neu ei archebu o'r llyfrgell leol, wrth gwrs!) cewch wybod mwy am ddulliau traddodiadol dathlu'r Nadolig yn eglwysi Anglicanaidd Cymru.

Enw'r llyfr yw *Carols before Dawn and other Welsh Christmases* (Gwasg Carreg Gwalch, £8) - ac yn wir - mae yn Saesneg. Ond awdur y llyfr yw'r Cymro hyddysg y Canwn Dr Patrick Thomas, fu'n gofalu am rai o blwyfi gwledig Sir

Gaerfyrddin fel Llanfihangel-Rhos-y-Corn a Brechfa, cyn symud at eglwys Christchurch yn nhref

Caerfyrddin. Yn y llyfr mae'n arwain y darllenydd drwy hanes ei fywyd o Nadolig i Nadolig, gan weu atgofion personol gyda gwybodaeth am garolau, y plygain a defodau'r Gwyliau yn ei blwyfi amrywiol.



Dyma lyfr fyddai'n anrheg Nadolig perffaith i unrhyw ddysgwr neu gyfaill di-Gymraeg sydd am wybod mwy am hanes a diwylliant Cymru – neu i unrhyw Gymro neu Gymraes lan loyw o ran hynny. Dysgais i lawer wrth ei ddarlennu - am Patrick ei hun, ond hefyd am hanes y Nadolig yng Nghymru.

A wyddoch chi taw'r Ficer Pritchard, ym marn Patrick, yw'r dyn a 'achubodd' y Nadolig yng Nghymru? Neu fod yr emynydd Ann Griffiths wedi penderfynu troi at y Methodistiaid Calfinaidd yn dilyn profiad annymunol yn ficerdy Llanfihangel-yng-Ngwynfa un bore Nadolig? A bod dwy garol hyfryd a gyfansoddwyd ym 1520 i'w priodoli i Huw Dafydd o blwyf Gelligaer ei hun?

Ac mae llawer mwy o ffeithiau diddorol o fewn cloriau'r llyfr hyfryd hwn! Gobeithio'n wir y bydd yn ychwanegu at lawenydd Nadolig 2017 i sawl un yn ein CwmNi - a thu hwnt.

Felly, yng ngeiriau Huw Dafydd eu hun -

“Canwn fore, canwn hwyr
Ar laswyr fendigedig,
Fal y canodd Dafydd Sant
O foliant i'r Nadolig”!

Posau'r Plant gan Mary Jones

Ydych chi'n gallu dod o hyd i'r NAW gwahaniaeth rhwng y ddau lun yma?



Mae enw DEUDDEG eitem yn ymwneud â'r Nadolig wedi'u cuddio yn y Chwilair. Ble maen nhw?



CYLLELL	FFORC	LLWY
PLAT	CANNWYLL	JWG
TWRCI	TATWS	PWDIN
HUFEN	CELYN	GWIN

Mae'r atebion ar waelod Colofn y Dysgwyr

Cyngerdd Nadolig

Côr Cwm Ni a Pharti'r Efail

Eglwys Holy Trinity
Ystrad Mynach

Nos Fawrth, 5ed o Ragfyr
£5 wrth y drws

7:00
Lluniaeth Ysgafn



WRTH AROS RUFUS

Drama Gywaith gan y Cwmni

Ysgol Gyfun Cwm Rhymni,

Safle'r Gwyndy, Caerffili

Nos Fercher

6ed o Ragfyr

8:00

£3 wrth y drws

Dathlu a Chofio



Llongyfarchiadau mawr i Bethan (Menter Iaith) a Craig ar enedigaeth Harri Ifor ar Hydref 29 yn 8 pwys 5 owns.



Haf Fussell 1926 - 2017

Cydymdeimlwn â theulu'r diweddar Haf Fussell yn eu colled. Amlosgwyd ei gweddillion ddydd Llun, 13eg o Dachwedd yn dilyn gwasanaeth hyfryd yng nghapel Bethel dan arweiniad y Parchedig Ddoctor R. Alun Evans.



Cyfarfu Haf â'i gŵr Angus, oedd yn gyfreithiwr, pan oedd hi'n gweithio fel nyrs yn Aberdâr. Ac wedi iddynt ymgartrefu yn Tanyrallt, Warren Drive, ddiwedd y 50au, ganwyd eu plant, Charles, Liz a James i gynhesu'r aelwyd yno. Erbyn hyn mae'r "plant" hyn wedi priodi â Sheryl, Gavin a Catherine. Ac yna yn eu tro daeth yr wyrion, Nia, Rhodri, Angharad, Catrin, Christopher, Ceris (sydd yn Awstralia ar hyn o bryd) a Caitlin. Ac ychydig cyn ei marwolaeth ganed gor-wyres iddi, sef Ffion - a oedd hefyd yn bresennol yn yr angladd!

Talwyd teyrngedau twymgalon i fam, mam-gu a hen fam-gu annwyl iawn a wnaeth gymaint dros y gymuned yma yng Nghaerffili. Gwnaeth waith sylweddol iawn wrth godi arian ar gyfer amryw achosion da, megis Achub y Plant, y Siambr Fasnach, yr RSPCA a Chymdeithasau Rhieni'r Ysgolion Cymraeg y gwnaeth gymaint i'w hyrwyddo. Cefnogodd Ysgol Gymraeg Caerffili pan ddaeth honno'n Ysgol Ifor Bach ac wedyn, Ysgol Gyfun Rhydfelen. Bu hefyd yn rhan o'r Gymdeithas Efeillio a oedd fawr o syndod gan i'r teulu dreulio llawer o wyliau haf yn Ffrainc. Roedd yn hoff iawn o goginio a bu hyn yn fodd o gynnal Boreau Coffi a digwyddiadau codi arian eraill. Dywedodd James, yn ei anerchiad, y byddai bore coffi gan Haf yn sicr o godi can punt, beth bynnag yr achos!

Cofiai James, yn ei anerchiad, yn y capel, i aelodaeth Haf o Fethel sicrhau fod y gynulleidfa yn clywed ei "melodious sweet sprano voice hitting the rafters" a theimlai drueni dros y sawl a eisteddai y tu blaen iddi! Adroddodd hefyd y stori am ei fam yn dechrau ei gyrfa fel bydwraig yn Hwlfordd, Sir Benfro, lle gofynnodd meddyg iddi hi a'i chydweithwyr sawl genedigaeth oedden nhw wedi gwneud. Wedi iddynt ddweud chwech, gadawodd y meddyg yr enedigaeth yn eu dwylo heb sylweddoli mai ond wedi GWELD chwe genedigaeth oedden nhw!

Meddai Elwyn Parry: Roedd Haf yn un o aelodau hynaf Bethel, Caerffili, a chofiaf i hi fel cydymaith am dros 50 mlynedd. Cofiaf, gydag edmygedd, ei hewyllys da, ei chariad, ei chymwynasgarwch di-baid a'r nosweithiau yn ystod y flwyddyn o "Open House Tan'rallt" at elusennau plant gyda phob math o afiechyd. Nid Tan'rallt ond "Benevolence House" a phob un o'r teulu yn gwneud ei ran. Roedd yn gryf iawn yn ei syniadau ac yn blaen "heb flewyn ar ei thafod". Dywedodd yn glir a phendant un tro, "Yn syml, dyn sy'n CARU yw Cristion, dim mwy, dim llai" ac fe gadwodd at hyn yn ystod ei bywyd. Diolch iddi am ei ffyddlondeb i'w heglwys a braint fawr oedd ei hadnabod. Heddych i'w llwch a bendith Duw ar ei theulu.



Achub y Plant

DIWRNOD SIWMPER NADOLIG

**Byddwch wych:
byddwch wlanog!**

Bydd y wlad yn troi'n wlanog unwaith eto y Nadolig hwn wrth i blant ac oedolion mewn ysgolion, cartrefi a swyddfeydd wisgo eu siwmperi gwirionaf ar gyfer Diwrnod Siwmpwr Nadolig Achub y Plant ar **ddydd Gwener, 15fed o Ragfyr**.

Nod Diwrnod Siwmpwr Nadolig yw codi arian ar gyfer cefnogi gwaith yr elusen yn rhyngwladol a hefyd yma yng Nghymru. Gofynnir i bawb wisgo siwmpwr liwgar a chyfrannu £2 (£1 os mewn ysgol) gyda'r holl arian a gesglir yn mynd tuag at helpu plant mwyaf bregus y byd; boed hynny'r rhai sy'n byw mewn gwersylloedd i ffoaduriaid neu ardaloedd rhyfelgar, yn dioddef o newyn neu drychineb naturiol, neu'n profi effeithiau tlodi yma yng Nghymru.

Ers lansio Diwrnod Siwmpwr Nadolig yn 2012 mae wedi codi swm o £13.5 miliwn, a'r llynedd fe godwyd y swm aruthrol o £4 miliwn o bunnoedd. O jrsis sy'n janglo i siwmpwr sy'n goleuo a disgleirio, eleni mae Achub y Plant yn gobeithio y bydd 5 miliwn o bobl yn cymryd rhan a byddai'n braf petai trigolion yr ardal yn ymuno yn yr hwyl at achos teilwng iawn.

- Gallai £1 brynu tabled puro i gyflenwi teulu gyda dŵr yfed glân
- Gallai £2 brynu pâr o esgidiau gaeaf i blentyn yn Afghanistan
- Gallai £400 brynu dŵr potel a blancedi thermal i 50 o blant

Pecyn Codi arian Cymraeg ar gael i ysgolion a'r cyhoedd

Gellir cofrestru ar www.christmasjumperday.org, ac unwaith i chi wneud hynny cewch e-bost fydd yn mynd a chi at dudalen lle gellir dewis fersiwn Gymraeg o'r pecyn codi arian yn ogystal â phosteri i'w llawrlwytho. Mae'r pecyn yn llawn syniadau ar gyfer gweithgareddau creadigol a dwl i sicrhau y bydd eich Diwrnod Siwmpwr Nadolig yn llwyddiant.

Ymysg eraill, bydd siopau WH Smith yn cefnogi Diwrnod Siwmpwr Nadolig Achub y Plant eleni drwy greu dau dedi bêr arbennig o'r enw Benji a Bruno. Gwerthir y tedis mewn siopau WH Smith ledled Cymru â'r DU am £4.99, gyda £1 o bob gwerthiant yn mynd tuag at yr elusen.

Os am sgwrs yn y Gymraeg am Ddiwrnod Siwmpwr Nadolig neu waith Achub y Plant yn gyffredinol, cysylltwch â Rhian Brewster neu Eurgain Haf ar 029 20 396838 neu e-bostiwch r.brewster@savethechildren.org.uk neu e.haf@savethechildren.org.uk Cewch fwy o wybodaeth hefyd ar ein tudalen Facebook [@savethechildrenwales](https://www.facebook.com/savethechildrenwales) a Twitter [@savechildrencym](https://twitter.com/savechildrencym) a chofiwch ddanfôn eich lluniau atom ar y gwefannau cymdeithasol drwy ddefnyddio #diwrnodsiwmpwrnadolig.

Eurgain Haf - Rheolwr y Cyfryngau a Chyfathrebu (Cymru)
Achub y Plant
3ydd Llawr, Tŷ Ffenics
8 Ffordd yr Eglwys Gadeiriol CAERDYDD CF11 9LJ

Colofn Dafydd Islwyn


Fis diwethaf soniais am ddau berson a'r mis hwn soniaf am bump Aneurin. Aneurin, un o'r Cynfeirdd enwog a flodeuai yn ail hanner y chweched ganrif. Wedyn Aneurin Jones (1822-1904), Gelli-groes, athro barddol y bardd Islwyn, Cwmfelinfach. Y trydydd ydy'r gwleidydd Aneurin Bevan (1897-1960). Diwedd mis Medi eleni bu farw'r arlunydd Aneurin Jones, Aberteifi, yn 87 oed. Dychwelwn at y beirdd gyda'r pumed, Aneurin Karadog, prifardd Eisteddfod Genedlaethol y Fenni 2016 gyda'i gysylltiadau â Nelson.

Y gerdd gynta ym Mlodeugerdd Rhydychen, 1962, golygydd Thomas Parry, ydy Y Gododdin. Mae'r llinell gynta ar go cenedl, "Gwŷr a aeth i Gatraeth oedd ffraeth eu llu." Y gwaith hwn gan Aneurin ydy llenyddiaeth hynaf Cymru a pherthyn nid i ddaear Cymru ei hun ond i ranbarthau sydd heddiw yn rhan o Dde'r Alban a Gogledd Lloegr. Cerdd ydy hi gan Aneurin i goffáu arwyr rhyfygus y brenin Mynyddaw a gollodd y dydd yn erbyn Saeson Deifr. Cryfder y gerdd ydy ei bod yn awgrymu yn lle traethu; cyflew yn lle mynegi. Oherwydd hynny gelwir y gerdd ragorol yn delynogol. Fe ddylai pob un sy am fwrw iddi i weithio cerdd gofio sylwadau Thomas Parry am waith Aneurin.

Ganwyd Aneurin Jones, Aneurin Fardd, yn Nhŷ'r Eglwys, Bedwas. Symudodd y teulu pan gymerodd ei dad ofal o Felin Gelligroes. Er mai peiriannydd sifil a phensaer oedd y bardd, cymerodd at waith y felin pan fu farw ei dad. Wrth ei gofio daw tair ffaith yn amlwg i'r wyneb. Ef oedd athro barddol a chyfaill Islwyn. Yn ail, ef a ddyfarnodd y wobr i Ceiriog am ei fugeilgerdd Alun Mabon yn yr Eisteddfod Genedlaethol gynta erioed a honno yn Aberdâr. Ymhen tair blynedd ymfudodd i America oherwydd drysodd ei amgylchiadau. Bu farw ar y 5ed o Fedi 1904 a chladdwyd ef yn Los Angeles.

Ganwyd Aneurin Bevan ar y 15fed o Dachwedd 1897. Etifeddodd ei angerdd at lyfrau, a chariad gydol oes at y celfyddydau, gan ei dad a hoffai farddoniaeth ac a berthynai i sefydliad celfyddydol "Y Cymrodorion", meddai traethawd "Golwg ar Aneurin Bevan" yng nghylchlythyr diweddaraf yr Archif Wleidyddol Gymreig.

Bu Aneurin Bevan yn destun englyn cywaith Ymryson y Beirdd y radio yn 1960. Dyma un Sir Aberteifi:



Gwyllt ei air â'r gwallt arian – grymus gawr

Ymysg gwŷr San Steffan;
Bro Ebwy mwy'n dristach man
Heb ofal ei Nye Bevan.

Moliant yw gwaith yr arlunydd Aneurin Jones i gymuned wledig Cymru ben baladr am iddo fyfyrïo ar ei dirywiad. Cyn bwrw iddi i arlunio roedd rhaid i Aneurin gael ei ysbrydoli gan brofiad o weld gwladwr. Awgrymu a chyfleu cyfoeth y gymdeithas a wnaeth ef. Mor addas yw englyn Ieuan Wyn, Bethesda, i "Alun", un o gymeriadau Aneurin, i ddisgrifio'r arlunydd ei hun.

Trwy ei oes dan ei draed trwm – mae'i wreiddiau

Ym mhrid yr un hen gwm
A rhwymau'r lle, er mor llwm
Yn ei galon yn gwlwm.

Enillodd Aneurin Karadog Gadair Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Caerdydd, 2005, am ei gerdd gaeth, 'Darluniau' – i Gymoedd De Cymru. Canmolwyd ei gerdd gan y beirniad. Dyma bennill o'r trydydd caniad:

Yn oriel llawn Aneurin
gwaed ei waedd o'r Gododdin
sy'n herio a pheintio ffin.

Yn ei ail gyfrol o'i gerddi "Blychau" ceir ei englyn "Cofio Senghenydd",

Mae'r holl haenau llonydd, pob ceiniog

ym mawnog y mynydd;
a glo du nid golau dydd
sy' yng nghân ddofn Senghenydd.

CINIO CRONFA GLYNDŴR – A CHNOI CIL

Roedd llond ystafell wedi ymgynnull yng Nghlwb Golff Creigiau nos Sadwrn 14eg o Hydref i fwynhau Cinio a Darlith Cronfa Glyndŵr. Roedd y bwyd yn flasus a'r gweini yn ardderchog.



Cafwyd cyfle yn ystod y noson i anrhegu Margaret Griffiths (Caerffili), cyn-drysorydd y Gronfa, am flynyddoedd maith o wasanaeth diflino ar ran y Gronfa.

Y gŵr gwadd eleni oedd Dr Hefin Jones, yn wreiddiol o Bencader, Sir Gaerfyrddin, ac wedi ei addysgu ym Mhrifysgol Llundain, ond sydd bellach yn Uwch-ddarlithydd ym maes Ecoleg ym Mhrifysgol Caerdydd. Testun ei sgwrs oedd ei

swydd yn Ddeon cyntaf y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, testun oedd mor berthnasol a phwysig i'r gynulleidfa o garedigion addysg Gymraeg yn y sectorau meithrin, cynradd ac uwchradd a oedd yn bresennol. Ymfalchiai'r Dr Jones ei fod yn goruchwylio traethawd hir myfyriwr ymchwil gwyddonol a allai dystio'n gadarn ei fod yn sgîl ei ymchwil 'yn cyflawni cymal olaf fy addysg ffurfiol, addysg yr wyf wedi cael y fraint o'i derbyn oll drwy'r Gymraeg'. Ond nid felly y bu pethau ar hyd y blynyddoedd, fel y dangosodd yn ei araith, oherwydd tan ryw bymtheng mlynedd yn ôl darniog a chwbl di-gynllun fu'r ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg ar lefel addysg uwch. Dyna arwyddocâd sefydlu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn 2011 ac arweiniodd Dr Jones ni drwy'r datblygiadau diweddaraf yn y maes gan gynnwys y bwriad i ddod ag addysg bellach cyfrwng Cymraeg dan adain y Coleg yn y dyfodol agos.

Cyflwynodd ystadegau diddorol i ddangos y cynnydd ond eto, nid arbedodd y gynulleidfa rhag clywed yn ogystal am yr heriau mawr yn eu plith: Pam fod myfyrwyr gwyddonol mor hwyrfrydig i ddilyn cyrsiau cyfrwng Cymraeg? A sut gellir annog myfyrwyr i gyhoeddi eu hymchwil yn y Gymraeg pan fo asesiadau ymchwil yn ffafrio erthyglau Saesneg? Yn sicr cafwyd digon i gnoi cil arno yn yr araith y gellir ei darllen yn llawn ar ein gwefan www.cronfaglyndwr.cymru Fel y dwedodd i gloi ei araith: 'Rydym wedi teithio siwrnai dda eisoes ond, heb unrhyw amheuaeth, mae ffordd bell i'w throedio eto cyn cyrraedd y nod o addysg ysgolheigaidd o'r radd flaenaf yn ein mamiaith i holl fyfyrwyr Cymru.'

Roedd hon yn araith rymus ac amserol a diolchwyd i Dr Jones gan Hywel James ar ran yr ymddiriedolwyr a'r ciniawyr i gyd. Fel y dywedodd Wyn Rees, Ysgrifennydd y Gronfa 'Bu'n noson lwyddiannus iawn a chawsom gyfle nid yn unig i nodi pwysigrwydd ychwanegu at ein cronfa, ond i egluro sut yr ydym yn dosbarthu ein grantiau yn ôl y gofyn.'

Beth am dderbyn eich papur bro misol dros y we. Mae yna fanteision.....

- ♦ Byddwch yn derbyn eich papur yn syth.
- ♦ Byddwch yn gweld pob un dudalen mewn lliw.
- ♦ Byddwch yn arbed papur.

Gyrrwch eich cyfeiriad ebost at y Golygydd, does angen gwneud dim byd mwy!

benamary2000@yahoo.co.uk/ Golygydd@papurcwmni.cymru

Patagonia

Ein pleser yw cyflwyno rhan gyntaf hanes taith Owain a Joanna i Batagonia yn llysgenhadon yr Urdd. Cewch ddarllen mwy yn ein rhifyn nesaf.

Yn dilyn misoedd o baratoi dwys a llond llu o ddigwyddiadau codi arian, Ddydd Sadwrn y 21^{ain} o Hydref oedd cychwyn ein taith i'r paith. Yn ystod y pythefnos yma roeddwn yn awyddus i ddarganfod a oedd y Gymraeg wedi goroesi yn y gornel anghysbell yma o'r byd, a beth, os unrhyw beth, oedd effaith y Cymry ar yr ardal. Roedd y daith o'n blaenau yn un faith, gyda dros 24 awr o deithio cyn i ni lanio ym Muenos Aires, ond roedd yr hediadau hirfaith yn gwbl gwerth chweil.

Ym Muenos Aires, cyfle i archwilio'r ddinas ar daith bws oedd o'n blaenau. Ar unwaith profodd fy synhwyrâu liwiau llachar 'La Boca' a phrydferthwch bonheddig y coed Jacaranda oedd yn rhesi strydoedd llydan y ddinas. Fel criw cawson ein taro gan debygrwydd Buenos Aires i ddinasoedd yn Ewrop. Yn ôl ein tywysydd Roxy, seiliwyd y ddinas ar Baris. Ym mynwent Recoleta claddgelloedd trawiadol oedd i'w gweld er mwyn cofio trigolion cyfoethocaf a phwysicaf y ddinas. Gyda'r nos roedd gwledd o sioe Tango draddodiadol gyda stori a gyflëwyd gan symudiadau'r dawnswyr a geiriau'r caneuon. Ond, daeth y gymysgedd o eiriau estron Sbaeneg a'r tywyllwch yn drech na'r mwyafrif, ac erbyn canol y sioe roedd bron pawb i'w gweld yn pendwmpian!

Sail diet yr Ariannin yw pasteiod Medialunas (math o *croissant*), bara gwyn, caramel *dulce de leche* (jam llaeth), *empanadas* cig eidion neu gaws a ham. Yn wir, doedd trigolion yr Ariannin ddim yn ystyried ham yn fath o gig, her ar gyfer llysieuwr fel fi! Dysgais i hyn am y tro cyntaf ar ôl glanio yn ein lloches 'Maes Rhyddydd' yn y Gaiman ac eistedd lawr am 'asado', gwledd o gig wedi'i weini gyda rhagor o gig. Fy mhryd i felly oedd darn o fara gwyn a llond blât o ddail gwyrddion, nid fy mod i'n cwyno!

Ein profiad cyntaf o'r Batagonia Gymreig oedd ymweld â Choleg Camwy yn y Gaiman lle roedd y plant uwchradd yn dysgu'r Gymraeg fel iaith dramor. Chwithig oedd cyrraedd a chael ein croesawu gan ddawnsio gwerin a chymeradwyaeth wresog a oedd yn weddus ar

gyfer enwogion byd enwog! Yna, cawson ein tywys gan ddisgyblion hŷn i weld olion hanesyddol y fintai gyntaf ar y Gaiman.

Profiad anghyfarwydd oedd gweld llond lle o dai te Cymreig, 'Y Siop Fara', strydoedd ag enwau megis Michael D. Jones ag arwyddion dwyieithog, rhywbeth sydd ddim wastad i'w weld yma yng Nghymru. Gyda'r hwyr cynhalion ni gyngerdd ar gyfer pobl hŷn Dolavon er mwyn arddangos doniau amryddawn ein criw. Yn ein mysg roedd nifer o gantorion medrus, gan gynnwys enillydd Cân i Gymru, ac er nad oes gen i lais angylaidd, llwyddais i ganu fel rhan o'r côr. Rhaid cyfaddef wrth gloi'r noson gyda'r anthem, enynnwyd teimlad o falchder ynof a yrrodd ias lawr fy nghefn.

Roedd ein hail ddiwrnod yn groes i'n disgwyliadau, gydag ymweliad â Pharc Cenedlaethol Punta Tombo yng nghwmni plant blwyddyn 4 Ysgol Gymraeg yr Hendre. Ni chawsom ein siomi o weld cannoedd o binguinos bychan (pengwiniad i chi a fi) yn siglo o ochr i ochr. Syndod i mi oedd eu maint, gyda dim un yn fwy na 76cm. Yn ôl pob tebyg, Punta Tombo yw cynefin mwyaf pengwiniad De America, gyda mwy nag un filiwn yn ymgartrefu yno. Wedi ffarwelio â'r plant a'r pengwiniad symudon ni ymlaen at Borth Madryn, man glanio'r Cymry cyntaf ar Orffennaf 27^{ain}, 1865. Yma, ymwelon ni ag amgueddfa a gyfleodd hanes y fintai, yn ogystal â chanu wrth ymyl bedd Catherine Davies a fu farw ar fwrdd y Mimosa. Profiad gostyngedig oedd gweld yr ogofau cyntefig lle trigodd y mewnfudwyr cyntaf, ac a berodd ing gan ddychmygu caledi'r blynyddoedd cynnar. Serch hynny, wrth weld pa mor ffyniannus yw'r ardal bellach, achosodd ymdeimlad o edmygedd o'r hyn a gyflawnwyd.

Owain Ash

EGLWYS TONYFELIN, CAERFFILI

Roedd bore Sul, 12 fed o Dachwedd yn fore arbennig iawn i deulu Elin, Eilian a Gruffydd. Cyflwynwyd Gruffydd a bedyddiwyd Eilian.

Neilltuwyd rhan gyntaf yr oedfa ar gyfer cyflwyno Gruffydd i ofal Crist ac i ofyn am fendith a nawdd y nef arno ef a'i deulu. Mae Gruffydd, er nad yw ond ychydig fisoedd oed, yn gyfarwydd iawn â dod i Donyfelin ar fore Sul gyda'i dad. Yn aml bydd yn cwmpo i gysgu yn ystod y bregeth ond y bore Sul hwn fe arhosodd yn effro a'i lygaid glas yn pefrio gan sylwi ar bawb a phopeth oedd o'i amgylch. Roedd yn amlwg nad oedd am golli eiliad o'r digwyddiad pwysig hwn yn ei fywyd. Ac roedd ei wên lydan yn nodi'n glir ei fwynhad o'r cyfan. Pan ganodd côr merched y capel emyn a ysgrifennwyd yn arbennig ar gyfer yr achlysur gan Rita Milton Jenkins, fe hoeliodd Gruffydd ei sylw arnynt drwy'r datganiad. Yn dilyn yr oedfa cyflwynwyd copi o *Beibl Bach y Plant* i Gruffydd ar ran yr Ysgol Sul.

Bedydd Eilian oedd ail ran yr oedfa. Pregethodd ein gweinidog, y Parchedig Milton Jenkins ar y testun: *Pwy mae pobl yn ddweud ydw i? a Pwy ydych chi'n ddweud ydw i?* (Mathew 16:13-15; Marc 8:27). Pwysleisiwyd mai nid barn pobl eraill am Grist sy'n bwysig i'r Cristion, ond ei farn ef ei hun. Rhaid i'r Cristion dderbyn yr her o wneud Crist yn ganolbwynt ei fywyd. Nid ein gwneud yn bersonau da a wna Crist ond ein gwneud yn bersonau newydd ynddo Ef. Roedd her yn ei neges, nid yn unig i Eilian, ond hefyd i bob un o'r gynulleidfa. Rhaid i bob un ohonom ateb y cwestiwn – pwy ydych chi'n dweud yw Crist? Yna cafwyd yr ordinhad o fedydd trwy drochiad ar sail proffes o ffydd yng Nghrist gan Eilian. Dewis Eilian oedd bod y gynulleidfa yn canu Pantyfedwen, ac mor addas i'r achlysur oedd rhai o linellau'r emyn yma. Wrth iddo godi o'r dŵr wedi'r bedydd ailadroddwyd cytgan yr emyn cyfarwydd hwn *Mae'r Haleliwia yn fy enaid i, a rhoddaf, Iesu, fy mawrhad i ti.*

Hyfryd oedd cael cwmni llu o deulu a chyfeillion Eilian yn yr oedfa gofiadwy hon, a chafwyd cymdeithas gynnes yn y festri i ddilyn dros baned a danteithio lu. Bore i'w gofio yn wir.



Eilian Roderick a'r Parchedig Milton Jenkins, gyda David Thomas yn cynorthwyo

Oedfa Wahanol

Oedfa wahanol i'r arferol a gawsom ar fore Sul, 22ain o Hydref, pan ddaeth y Dr Neville Evans o Dreforgan atom. Yn dilyn y defosiwn ar ddechrau'r oedfa, nid gwranddo ar bregeth a wnaethom, ond trefnu ein hunain mewn grwpiau i drafod epistol Iago. Roedd Dr Evans wedi paratoi cyfres o nodiadau ar ein cyfer yn seiliedig ar y llythyr hwn ac wedi gosod nifer o bwyntiau heriol i ni eu trafod. Addas iawn oedd trafod yr epistol hwn ar ddiwedd Hydref 2017, pan y bu sawl digwyddiad i gofio am y thesis o 95 o bwyntiau a hoeliodd Martin Luther i ddrws yr eglwys yn Wittenburg union 500 mlynedd yn ôl. Ni welai Luther unrhyw bwynt o gwbl yn epistol Iago. Credai Luther yn gryf yn y gred o gyfiawnhad trwy ffydd yn hytrach na chyfiawnhad trwy weithredoedd da; ond mae Iago yn pwysleisio nad yw ffydd ar ben ei hun yn ddigon, oni bai ei bod hefyd yn ysgogi gweithredoedd da. Daethpwyd i'r casgliad bod ffydd yn hollbwysig ond rhaid i'r ffydd yna arddangos gweithredoedd da. Iago, felly, a enillodd y ddadl yn Nhonyfelin ar y bore Sul arbennig hwn. Diolch yn fawr i Dr Evans am ein hysgogi i addoli mewn ffordd wahanol.



Dathlu a Chofio



Ganwyd Deio Owen Hopkin, babi cyntaf Eleri ac Aled Hopkin ar Hydref 31ain. Y mae'r teulu bach, sydd wedi ymgartrefu ym Mhen y Bryn wrth eu bodd.

Llongyfarchiadau iddynt oddiwrth y teulu oll.

Llond sach o gariad arbennig hefyd oddiwrth Loti, Ifan, Nerys a Beca.

Teyrnged i Jean Kember - Hanesydd Lleol

Hoffwn dalu teyrnged i Jean Kember fu farw ym Medi 2017. Cyfrannodd Jean lawer iawn i hanes yr ardal. Gwnaeth lawer o waith ymchwil gwerthfawr ar hanes ffermydd ac achau hen deuluoedd Gelligaer a Morgannwg. Roedd diddordeb arbennig ganddi yng nghyfnod y canoloesoedd ac yn sgîl ei hymchwil manwl yn nogfennau'r cyfnod, daethom i wybod mwy am fywydau'r trigolion.

Roedd teulu Jean yn perthyn i delynorion yr 'Harp' yng Ngelligaer, lle arferid cynnal eisteddfodau a chyfarfodydd y Cymrodorion. Braf oedd dysgu am y bwrlwm o Gymreictod, y barddoni a'r cyfansoddi cerddoriaeth oedd yn rhan annatod o fywyd yr ardal wrth wrando ar ei darlithoedd.

Er nad oed Jean yn siarad Cymraeg, roedd yn gefnogol iawn i'r iaith ac yn sicrhau bod lle i'r Gymraeg yn y gymdeithas a sefydlodd yn 2011, sef Cymdeithas Gwerthfawrogi Hanes Lleol Gelligaer (*The Gelligaer Local History Appreciation Society*). Gellir darllen erthyglau ganddi yn y llyfrynnau a gyhoeddwyd yn flynyddol o dan enw'r gymdeithas a hefyd yn llyfrynnau Cymdeithas Hanes Gelligaer (*The Gelligaer History Society*). Mae'r cyfrolau hyn ar gael yn ein llyfrgelloedd lleol ac ar werth o'r cymdeithasau uchod.

Bydd colled fawr ar ôl Jean, cymeriad annwyl, cyfeillgar a chroesawgar, ond bydd y golled fwyaf i'w gŵr Gerald, i'w meibion a'i theulu agos.



Eirlys Ashton



Ymestyn allan

Cynhaliodd yr Ysgol Feithrin a'r Cylch Ti a Fi, sy'n cyfarfod yn neuaddau Tonyfelin, Ffair Aeaf ar ddydd Sadwrn, 18fed o Dachwedd, ac fe'n gwahoddwyd fel eglwys i godi stondin. Derbyniwyd y cynnig yn llawen. Hyfryd oedd cael y cyfle i greu perthynas agos gyda'r teuluoedd sy'n mynychu'r cylchoedd hyn, ac i nodi ein bod ni yn Nhonyfelin yn darparu Ysgol Sul Gymraeg ar fore Sul a Chorlan i'r plant lleiaf a'u rhieni. Sefydlwyd Y Gorlan ddechrau Medi gan fod rhai o'r ieuenctid sy'n gysylltiedig â'r Eglwys wedi dod yn rieni, ac eraill sydd ychydig yn hŷn wedi dod yn neiniau ac yn deidiau, yn ddiweddar. Yn Y Gorlan, cewch chi a'r babanod / plant bach yn eich teulu y cyfle i wrando ar stori, canu caneuon, chwarae, gwneud ychydig o grefft ayyb.

Cafwyd stondin fyrlymus gyda'r plant lleiaf yn prysur liwio lluniau yn ymwneud â stori'r Nadolig ac yn chwarae gêm wrth daflu cylchoedd at dargedau er mwyn ennill pwyntiau. Cafodd y goreuon wobrau o lyfrau Nadoligaidd.

Dyma beth o gynnyrch EISTEDDFOD y CYMOEDD 2017

Ffesydd

Deffro dan blygion cynnes cwrlid, a chyn syflyd eilwaith
Oedi yn lludw neithiwr
Lle mae ei sicrwydd yn cymylu cyn cynnig fory.
Marwor y nos yn dal yn dwym am draed
A minnau'n gafael am yr ysbaid
Cyn codi, ymron â boddi yn nhrymder heddiw.
Ymaith â'r flanced – â'r darian,
Ymaith ag ennyd lonydd
A thua brwydr heddi newydd.

Brith gan ofnau yr hen lwybrau'n
Gwau drwy'r pen at gilfachau lle mae
crintach cryg hen amau yn diasbedain
Yw maes ein cadau.
Gan stormydd gwalltog ar y gorwel
Sy'n clebran a cherdded a dynesu a phellhau
Neu ollwng taflegryn 'Helo, su mae?'
Ffown gan ganlyn llecyn llai drylliedig,
A diarfogwn yn saib yr egwyl.

Croesi tir neb cyfarchiadau cyntaf
Lle mae enwau'n saethu'n simsan o geg i geg;
Neu gors hen adnabod
Gyda'r geiriau'n llusgo at eu hoe.
Sefyll yn nhymestl ein brwydrau dau-ddeg-pedwar-awr
Yn gwyllo rhes y gelyn yn bytholi
Ar y gorwel.
Cyrddau, cwestiynau, meini melyn:
Pob un â'i fidog.

Yn y man, gostwng y mae'r llenni yn eu lludded
A thywyllu y mae theatr y rhyfela
Heb ddim ond rhyw gur gwan yn curo.
Ar y gorwel mae'r ffos nesaf o hyd yn ein galw
At glydwch ei bant islaw undon y frwydr
Ac, o ddisgyn, gorffennwn bererindod hir
Yng nghoflaid diwetydd.

Euros (Gruffydd Gwyn)

Englyn - Cadair

(Lily Rice, 13 oed o Ddinbych y Pysgod,
y cyntaf i wneud 'backflip' mewn cadair olwyn)

Anhygoel ddewr ei hagwedd – drwy roi sbin
Din-dros-ben tra'n eistedd,
Cyfyd heb symud o'i sedd,
Yn hyblyg mewn anabledd.

Gwenhwyfar.

Limerig

Aeth William i'w wely un noson
Gan hymian i'w wraig hen alawon;
Tri chan mlynedd yn ôl
A'i ben yn ei châl,
Yn hwyrol fe ddaeth "rwyd ti'n ddigon".

Yr Hen Bant (John Lloyd, Caerffili)

Gwaith Llenyddol Cynradd

Llythyr at Sion Corn o safbwynt plentyn yng Nghymru a phlentyn sy'n ffoadur. Trwy osod y ddau lythyr gyda'i gilydd, mae'n llwyddo i gyfleu neges werth ei dweud. Da iawn!

Caerffili
Cymru
27/11

Annwyl Siôn Corn,

Sut wyt ti? Wyt ti'n brysur? Sut ydy Rudolf, Dasher, Comet, Prancer, Dancer, Vixen, Cupid Blitzen a Donner? Faint o gorachod sudd yn y gweithdy?

Hoffen i geal gel pens lliwgar fel enfys oherwydd dw i'n hoffi lliwio a thynnu lluniau. Plis ga i beanie boos efo llygaid disgair fel ser i cwtcho yn fy ngwely.

Syniad arall yw blwch casglu Pokemon efo llawer o Pokemon amriliw a pucker pops i fynd i bartion os gwelech yn dda. Fe fyddwn i yn ddiolchgar iawn am unrhyw un ohonynt.

Dw i wedi bod yn dda iawn yn yr Ysgol ac wedi gwneud fy ngorau glas i chwarae efo pawb ac yn ffrind i bawb. Yn y ty rydw i yn garedig i Jessica a dwi'n caru bod efo fy nheulu, cerdded Jet fy nghî a chwarae gemau.

Oddi wrth,

Alice Elizabeth Todd

Aleppo
Syria
27/11

Annwyl Siôn Corn,

Sut wyt ti? Wyt ti mynd I fy ffeindio i (dydw i ddim yn fy nhŷ?) Sut ydy Rudolf, Dasher, Comet, Prancer, Dancer, Vixen, Cupid Blitzen a Donner? Plis, plis, plis dwi eisiau mam a dad i fod yn ddiogel! Ga i gacen, siocled os gwelwch yn dda? Dydw i ddim wedi bwyta siocled ers hudoedd!

Dwi wedi bod yn ddarllen Harry Potter i fy mrawd fach Victor fel ei fod ddim yn cael hunllef. Dwi wir yn colli fy Ysgol ond yn trio cofio fy mathemateg,

Oddi wrth,

Haya

Colofn y Dysgwyr gan Ann Lewis

Braidd yn gynnar efallai ond ga i ddymuno NADOLIG LLAWEN i bawb o'n darllenwyr. Oes gyda chi hoff garol neu hoff gerdd Nadolig tybed?

Rydw i'n hoffi'r gerdd yma gan D. J. Thomas. Mae'n rhoi darlun syml o hanes ac ystyr y Nadolig mewn tri phennill byr. Er bod Iesu Grist yn faban bach, mae e hefyd wedi dod i'r byd i'n hachub ni. Rydyn ni'n cofio geni Crist adeg y Nadolig ac mae'r bardd yn gobeithio bydd tangnefedd neu heddwch yn cael ei eni hefyd ymhlith dynion. Wedyn bydd y byd yn lle gwell i fyw ynddo.

Nadolig

Gŵyl y cofio yw'r Nadolig
Cofio Crist yn faban Mair,
Cofio'r Ceidwad yn y preseb
Ac yn cysgu yn y gwair.

Daeth angylion i'w foliannu,
Mab y dyn yn Frenin nef,
A'r bugeiliaid a ddaeth yno
Gan ei ogoneddu ef.

Boed i'r cofio eni eto
Yng nghalonnau dynol-ryw
Y tangnefedd o adnabod
Baban Mair yn Faban Duw.



<i>ystyr : meaning</i>	<i>achub : save</i>	<i>geni : birth</i>	<i>gobeithio : hope</i>
<i>tangnefedd/heddwch : peace</i>	<i>cael ei eni : to be born</i>	<i>ymhlith : amongst</i>	<i>gŵyl : festival</i>
<i>Ceidwad : Saviour</i>	<i>preseb : manger</i>	<i>moliannu : praise</i>	<i>gogoneddu : glorify</i>
<i>mab y dyn : the son of man / Christ</i>	<i>bugeiliaid : shepherds</i>		
<i>Boed : Let</i>	<i>dynol-ryw : mankind</i>		



Atebion i'r Posau

Sawl un gawsoch chi'n gywir?



mentercaerffili.cymru

morganroberts@mentercaerffili.cymru 01443820913



Ymunwch â'n cymuned o gemwyr youtube trwy wneud sylwadau ar ein fideos ac

awgrymu pa fideos hoffech chi weld ni'n chwarae a thrafod.

Mae sianel Youtube 'gemau retro' yn canolbwyntio ar gemau hen gonsols fel y Nintendo

Entertainment System, Super Nintendo, Sega Master System a'r Sega Mega Drive –

Ar gyfer plant 10-11 mlwydd oed.

Mae sianel Youtube 'gemau fideo' yn chwarae pob math o gemau fideo, mae'r aelodau i gyd yn

ieuenctid 11-18

Mae 'Yn Chwarae' yn sianel gemau fideo oedolion sydd yn cwrdd yn fisol i gymdeithasu

a chreu fideos ar gyfer y sianel. *TANYSGRIFIWCH i'n sianeli i gefnogi ein cymuned.



01443 820913 morganroberts@mentercaerffili.cymru

mentercaerffili.cymru

TACSI GORSAF CAERFFILI

Cysylltwch â KEITH ar 022 362364 neu 07914 355195

facebook.com/tacsigorsafcaerffili



Defnyddiwch Gardiau Debyd/Credyd

Llyfrau'r Enfys

Facebook/Llyfrau'r Enfys

Twitter @llyfrau'enfys

Vikki Alexander-07970172754



Happy
Snappers



Lluniau
Llawen

Enthusiastic Amateur Photographers
All Occasions Considered - Reasonably Priced

Gwasanaeth Cymraeg Ar Gael

Tracey 07764 750916 Eluned 07825 615349

Eisiau ymarfer eich Cymraeg?

2ail ddydd Mawrth y mis

Llyfrgell Caerffili ar yr 2ail lawr

12 Rhagfyr, 9fed Ionawr am 2 o'r gloch

"Straeon Tafarn" gan Dewi Pws

Bore coffi ym Medwas, Caffi'r Graig bob dydd

Llun o 10.30 Bore coffi yn y Malcolm Uphill

(Wetherspoons), Caerffili

bob dydd Mawrth o 10 o'r gloch

JanPenney@aol.com

Croeso i Bawb



"Grŵp Dydd Gwener"

ARDDANGOSFA a GWERTHIAN LLUNIAU

Llyfrgell Bedwas

Hyd at y Nadolig
(ond ar gau bob dydd Iau)



www.iwcs.cymru

**Sesiynau pob
Nos Fawrth,**

**Clwb Rygbi Penallta
6.00 – 8.00
£5 y sesiwn**

07745927308

lwcsycwm2015@gmail.com

Dillad Gwaith * Cit Hamdden * Gwisg Ysgol



JansanWear

Uned G,Ystad Ddiwydiannol Bowen,
Aberbargoed, CF819EP

Clwb Darllen Cwm Ni

Llawr Cyntaf

Llyfrgell Newydd Caerffili

2:00 o'r gloch

Rhagfyr 4ydd **Rhannu Ymbarel**

Ionawr 8fed **Gwales**

Chwefror 5ed **Abermandraw**

Cyswllt

janpenney@aol.com

Croeso Cynnes i Bawb

Hanes Cwm Ni

7/12/17 Cwis Hanes Cymru


Cwis + swper; dewch â bwyd i'w rannu

11/1/18 Gareth Williams

Thomas Picton. Arwr neu ddihiryn?

1/2/18 Gwyn Griffiths

The Old Red Tongue; hanes llenyddiaeth Cymru



Clwb Rygbi Penallta

Ystrad Mynach CF82 7EP

7:00yh

Am ragor o fanylion:

helen.young@coleggwent.ac.uk

01495 333702

Eisiau dysgu mwy am hanes Cymru? Dewch i wrando. Croeso i bawb.

Addas ar gyfer siaradwyr CANOLRADD / UWCH / HYFEDREDD



Chwaraeon

CHWARAEON YR URDD

Gollwng a Siopa Nadolig

Christmas Drop and Shop



Chwaraeon

Dydd Sadwrn 16eg o Rhagfyr | *Saturday December 16th*

Ysgol Cwm Rhymini (Safle'r Gwyndy | *Gwyndy Site*)
9.30-1

Blwyddyn 1 i Flwyddyn 6 | *Year 1 to Year 6*

Angen gorffen eich siopa Nadolig? Angen lapio 'r anrhegion?

Dewch a 'r plant i 'n gwersyll chwaraeon i fwynhau amrywiaeth o chwaraeon!

Need to finish your Christmas shopping? Need time to wrap presents?

Bring your children to our sports camp to enjoy a variety of sports!



Cysylltwch â fi i gofrestru
Contact me to book

Rachel Davies:
rachel@urdd.org 07881 782600



Cylch Meithrin Nelson ar y brig!



Nos Wener, Hydref 20fed aeth grŵp o ddeg o staff a rhieni o Gylch Meithrin Nelson i Ganolfan Medrus, Aberystwyth ar gyfer Seremoni Gwobrau Mudiad Meithrin. Cafodd y Cylch ei enwebu yn y categori 'Darpariaeth' orau. Roedd yr enwog Arfon Haines Davies yn gyflwynydd gwyh.

Ar ôl aros am ganlyniadau'r gwobrau eraill: 'Gwyrdd ac Iach', 'Gwrfoddolwr', 'Cynhwysiant', 'Marchnata a Chodi Arian', 'Cylch Ti a Fi', 'Ardal Tu Allan', 'Cynorthwy-ydd', 'Arweinydd' a'r 'Pwyllgor', dangoswyd lluniau o'r plant yng Nghylch Meithrin Nelson yn gwneud gweithgareddau amrywiol fel plannu hadau, chwarae yn y dŵr, darllen a bwyta ffrwythau. Roedd hi'n debyg i Seremoni'r Oscars, pan gyhoeddwyd mai Cylch Meithrin



Nelson oedd wedi dod i'r brig. Roedd bonllfau o gymeradwyaeth gan weddill y criw oedd wedi teithio i Aberystwyth. Cafwyd noson hyfryd yn dathlu yn Aberystwyth cyn i Storm Brian daro Prom y dref!



Arweinydd Cylch Meithrin Nelson yw Sharon Lewis-Connelly ers 2015 ar ôl ymddeoliad Margaret Angel. Y staff eraill sydd wedi helpu i gyfrannu at lwyddiant y Cylch yw Ruth Corney, Emma Edwards, Keryl Heafield a Kerry Lucas. Mae'r cylch yn rhedeg bob bore Llun – Gwener o 9 y.b. - 12.30 y.p. i blant dros 2 oed tan eu bod yn mynd i'r ysgol. Os hoffech fwy o wybodaeth am Gylch Meithrin Nelson cysylltwch â 07534180277

CAROL A CHANNWYLL

Nos Sul
17 Rhagfyr
6pm



Eglwys Tonyfelin
Heol Bedwas
Caerffili

CROESO CYNNES